

HM Inspectorate of Probation

1st Floor, Manchester Civil Justice Centre,
1 Bridge Street West, Manchester M3 3FX
0161 240 5336

hmip.enquiries@hmiprobation.gov.uk

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation



Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr:

Cynllun Iaith Gymraeg – Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2018

Cyflwyniad

1. Paratowyd yr adroddiad hwn gan yr Arolygydd sy'n gyfrifol am ein Cynllun Iaith Gymraeg ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 01/01/18 a 31/12/18.
2. Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Prawf EM) yw'r arolygydd annibynnol o wasanaethau prawf a throseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd y gwaith gydag oedolion a phlant sydd wedi troseddu. Rydym yn gweithredu o'n pencadlys ym Manceinion a'n swyddfa yn Llundain, a'n cyllid blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 yw £6.05 miliwn.
3. Yn ystod 2018, penododd Arolygiaeth Prawf EM aelod ychwanegol o staff Cymraeg ei iaith. Mae'r Arolygiaeth bellach yn cyflogi un Prif Arolygydd Cynorthwyol llawn amser Cymraeg ei iaith, un Arolygydd Cynorthwyol Cymraeg ei iaith ac Arolygydd Cymraeg ei iaith sy'n cael ei gyflogi ar gyfer gwaith sesiynol. Mae'r sefydliad, dan arweiniad Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi wedi ymrwymo i gyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg.
4. O dan ein Cynllun Cyflenwi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2017/18 rydym ni wedi ymrwymo, yn unol â *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*, y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal ein harolygiadau yng Nghymru, fel yr amlinellwyd yn ein Cynllun Iaith Gymraeg cymeradwy.

Recriwtio

5. Rydym yn parhau i geisio recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg drwy roi ystod o fentrau ar waith, yn cynnwys gwneud yn siŵr bod hysbysebion swyddi ar gyfer staff arolygu yn croesawu siaradwyr Cymraeg ac yn rhoi cyfle iddynt drafod y swydd gyda siaradwr Cymraeg yn y sefydliad. Byddwn hefyd yn defnyddio llwybrau sefydledig yn y sector cyfiawnder i godi ymwybyddiaeth o swyddi gwag.

Cynllunio a chyflenwi gwasanaethau

6. Rydym ni'n cynllunio ac yn gweithredu arolygiadau o waith troseddau oedolion a throseddau ieuenctid yng Nghymru, weithiau ar y cyd ag arolygiaethau perthnasol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW), Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) ac Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS). Drwy wneud hynny, rydym ni'n hyrwyddo ein

Cynllun Iaith Gymraeg yn ogystal â bod yn ymwybodol o gynlluniau arolygiaethau eraill.

7. Rydym ni wedi ymrwymo i gael o leiaf un Arolygydd Cymraeg ei iaith yn rhan o'n rhaglenni arolygu craidd ar gyfer troseddau ieuencid ac oedolion yng Nghymru. Rydym ni hefyd wedi cysylltu â'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru, y Cyfarwyddwr Prawf, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru a'r holl Reolwyr Tîm Troseddau Ieuencid yng Nghymru yn gofyn iddyn nhw roi gwybod i ni ymlaen llaw a fyddai'n well gan eu defnyddwyr gwasanaeth, eu staff neu eu rheolwyr strategol gael eu cyfweld yn Gymraeg.
8. Mae ein harolygiadau thematig yn ystyried meysydd penodol o waith troseddau ieuencid ac oedolion ledled Cymru a Lloegr. Pan fo hyn yn cynnwys arolygu ardal yng Nghymru, rydym hefyd yn gofyn ymlaen llaw a fyddai'n well gan unrhyw un gael eu cyfweld yn Gymraeg er mwyn gallu darparu Arolygydd Cymraeg ei iaith yn ôl yr angen.
9. Yn rhan o'n harolygiad craidd o waith troseddau ieuencid ac oedolion yng Nghymru rydym yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae'r sefydliad a arolygir wedi nodi ac ymateb i'r dewis i ddefnyddio gwasanethau yn Gymraeg. Mae'r trafodaethau a gynhelir gyda staff hefyd yn hyrwyddo pa mor bwysig yw cydnabod hawl defnyddwyr gwasanaeth i ddefnyddio gwasanethau drwy'r Gymraeg.
10. Gellir cyflwyno gwybodaeth y gofynnir amdani gan Arolygiaeth Prawf EM cyn arolygiad naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg. Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd pob darn o wybodaeth o'r fath yn Saesneg.

Arolygiadau a gynhaliwyd yng Nghymru

11. Rydym wedi cwblhau dau arolygiad o Dimau Troseddau Ieuencid yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd, sef ym Mae'r Gorllewin ac yn Wrecsam. Cafodd llythyrau cyhoeddi arolygiad, arolygon testun pobl ifanc, holiaduron dedfrydwyr a chanllawiau gweithdrefn rybuddio eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni chafwyd unrhyw gais i gynnal cyfweiliad drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mae'r Gorllewin. Cafodd dau gyfweiliad yn Wrecsam eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.
12. Rydym wedi cwblhau un arolygiad o wasanaethau prawf yng Nghymru, sef y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) yng Nghymru. Cafodd llythyrau cyhoeddi a llythyrau i ddedfrydwyr eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cafodd tri chyfweiliad yn rhan o'r arolygiad o'r GPC yng Nghymru eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.
13. Rydym wedi cwblhau dau arolygiad thematig a oedd yn cynnwys ardaloedd yng Nghymru, sef yr arolygiad 'Cam-drin Domestig: y gwaith a wneir gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CAC) a'r arolygiad 'Rheoli a goruchwylio dynion sydd wedi'u cael yn euog o droseddau rhywiol'. Cafodd pedwar cyfweiliad eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan o'r arolygiad thematig 'Cam-drin Domestig' a chafodd saith cyfweiliad eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan o'r arolygiad 'troseddau rhywiol'.
14. Cafodd cyfanswm o 16 o gyfweiliadau arolygiad eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2018, sy'n cynrychioli cynnydd sylweddol ar y blynyddoedd diwethaf.

Wyneb cyhoeddus y sefydliad

15. Mae logos Arolygiaeth Prawf EM yn parhau i gael eu hargraffu mewn fformat dwyieithog. Mae bathodynau enw mewn fformat dwyieithog yn ogystal â cherdyn busnes ein Prif Arolygydd Cynorthwyol, yr Arolygydd sy'n bennaf gyfrifol am Gynllun

laith Gymraeg Arolygiaeth Prawf EM, yr Arolygydd Cynorthwyol a'r Arolygwyr Cymraeg eu hiaith sy'n cael eu cyflogi ar gyfer gwaith sesiynol. O ganlyniad, mae'n hawdd adnabod yr arolygwyr Cymraeg eu hiaith o edrych ar eu bathodynau enw.

16. Mae adroddiadau ar ein harolygiadau yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn gyfochrog yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad arolygiad thematig yn ymwneud â Chymru a Lloegr. Roedd adroddiadau Cymraeg ar gael yr un pryd â'n hadroddiadau Saesneg mewn cysylltiad â'r arolygiadau hyn. Mae adroddiadau a gyhoeddir hefyd yn cael eu hyrwyddo gan ddefnyddio teitl dwyieithog ar Twitter.
17. Yn y gorffennol, rydym wedi cyhoeddi rhai o'n Hadroddiadau Blynyddol yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn fwy cyson wrth gyhoeddi'r ddogfen gorfforaethol hon yn ddwyieithog yn y dyfodol.

Cyfathrebu ehangach

18. Mae Arolygiaeth Prawf EM wedi parhau i ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu cymeradwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym wedi darparu rhestr o dermau cyffredin i'n darparwr cyfieithu er mwyn cynorthwyo â chysondeb. Byddwn yn parhau i fonitro ansawdd y gwasanaeth hwn.
19. Mae ceisiadau am gyfweiliadau â'r cyfryngau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cyfeirio at ein Prif Arolygydd Cynorthwyol Cymraeg ei iaith. Ni chafodd cais o'r fath am gyfweiliad â'r cyfryngau ei gyfeirio at y Prif Arolygydd Cynorthwyol yn ystod y cyfnod adrodd.
20. Nid ydym wedi cael unrhyw alwad na gohebiaeth i'n swyddfeydd ym Manceinion neu yn Llundain drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ac nid ydym wedi cael unrhyw gŵyn ynglŷn â'n Cynllun Iaith Gymraeg.

Hyfforddi a datblygu staff


21. Nid oes unrhyw hyfforddiant penodol wedi'i ddarparu ynglŷn â'n Cynllun Iaith Gymraeg nac o ran arolygu yng Nghymru, yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae pob aelod newydd o staff yn parhau i gael trosolwg o'n Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn rhan o'u sesiwn anwytho, sy'n ymgorffori ein cyfrifoldebau a'n hymrwymiaadau yn ymwneud ag arolygu yng Nghymru. Hefyd, bydd yr Arolygydd sy'n bennaf gyfrifol am ein Cynllun Iaith Gymraeg yn atgoffa pob aelod o staff o'n cyfrifoldebau dan ein cynllun drwy gyhoeddi erthygl yn ein Bwletin Staff.
22. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi parhau i wella ein cyswllt â Llywodraeth Cymru drwy gwrdd â'r Gweinidog a'r swyddogion perthnasol sy'n gyfrifol am bolisi cyfiawnder a diogelwch cymunedol. Rydym hefyd wedi bod yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn cyfarfodydd 'cadw mewn cysylltiad' gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru ac Arolygiaethau partner, gan gynnwys sgwrsiau i hyrwyddo'r gwaith datblygu trefniadau arolygu thematig ar y cyd yng Nghymru.
23. Mae ein dull rhagweithiol tuag at ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi parhau i lywio ein dealltwriaeth o drefniadau datganoledig ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant a sut mae'r gwasanaethau hyn yn gorgyffwrdd â gwaith troseddau a chyfiawnder yng Nghymru.
24. Aeth ein Prif Arolygydd Cynorthwyol Cymraeg ei iaith i ddigwyddiad diweddar Comisiynydd y Gymraeg a oedd yn ystyried effaith y safonau ar asiantaethau perthnasol, a'r defnydd parhaol o gynlluniau iaith Gymraeg ar gyfer sefydliadau eraill. Rydym yn ymwybodol o adroddiad y Comisiynydd ar brofiad carcharorion Cymraeg

eu hiaith ac rydym o'r un farn bod "bodloni anghenion ieithyddol carcharorion yn allweddol i gefnogi adsefydlu a lleihau aildroseddu".

25. Rydym wedi gwreiddio ein dull newydd tuag at arolygiadau ieuencid a phrawf ac ar y cyd â'n Harolygydd Arweiniol, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, byddwn yn ceisio sicrhau bod ein rhaglen waith newydd yn parhau i fodloni gofynion ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Trefniadau pellach

26. Bydd Tony Kirk, Arolygydd Prawf AEM, yn parhau i fod yn bennaf gyfrifol am ein Cynllun Iaith Gymraeg, gan adrodd i Helen Davies, y Prif Arolygydd Cynorthwyol, sy'n atebol i Brif Arolygydd Prawf EM.



Tony Kirk

Arolygydd Prawf AEM

Ar ran

Y Fonesig Glenys Stacey

Prif Arolygydd Prawf EM

Her Majesty's Inspectorate of Probation for England and Wales:

Welsh Language Scheme – Annual Monitoring Report for 2018

Introduction

1. This report has been prepared by the Inspector with responsibility for our Welsh Language Scheme and covers the period 01/01/18 to 31/12/18.
2. Her Majesty's Inspectorate of Probation (HMI Probation) is the independent inspector of youth offending and probation services in England and Wales. We report on the effectiveness of work with adults and children who have offended. We operate from our headquarters in Manchester and our office in London and our annual funding is £6.05 million for the 2018/19 fiscal year.
3. During 2018, HMI Probation appointed an additional Welsh speaking member of staff. The Inspectorate now employs one full time Welsh speaking Assistant Chief Inspector, one Welsh speaking Assistant Inspector and a Welsh speaking fee paid

Inspector. The organisation, led by the HM Chief Inspector of Probation is committed to fulfilling our responsibilities under the Welsh language scheme.

4. Under our Equality and Diversity Delivery Plan 2017/18 we are committed to ensuring, in accordance with the *Welsh Language Act 1993*, that in the conduct of our inspections in Wales, we will treat the Welsh and English languages on a basis of equality, as outlined in our approved Welsh language scheme.

Recruitment

5. We continue to seek to increase recruitment of Welsh speakers through deploying a range of initiatives including, making sure that job adverts for inspection staff welcome Welsh speakers and provide an opportunity to discuss the post with a Welsh speaker in the organisation. We will also make use of established avenues in the justice sector to promote awareness of vacancies.

Service planning and delivery

6. We design and implement inspections in Wales of both adult offending and youth offending work, sometimes jointly with other relevant inspectorates. These include the Care Inspectorate Wales (CIW), Estyn, Health Inspectorate Wales (HIW) and Her Majesty's Inspectorate of Constabulary and Fire and Rescue Services (HMICFRS). In so doing we promote our Welsh language scheme and are similarly cognisant of other inspectorate's schemes.
7. We have committed to providing at least one Welsh speaking Inspector on our core youth and adult inspection programmes in Wales. We have also contacted the Divisional Director, National Probation Service in Wales, the Probation Director, Wales Community Rehabilitation Company and all Youth Offending Team Managers in Wales and asked them to inform us in advance whether any of their service users, staff or strategic managers would prefer to be interviewed in Welsh.
8. Our thematic inspections look at specific areas of youth and adult offending work across England and Wales. When this includes inspection of an area in Wales, we also ask in advance whether anyone would prefer to be interviewed in Welsh in order that a Welsh speaking Inspector can be provided as required.
9. Our core inspection of youth and adult offending work in Wales include a focus on how well the inspected organisation has identified and responded to the preference to access services in Welsh. The discussions that take place with staff also serve to promote the importance of recognising service user entitlement to access services through the Welsh language.
10. Information requested by HMI Probation in advance of inspection can be submitted in either Welsh or English. During the reporting period, all such submissions were made in English.

Inspections delivered in Wales

11. We have completed two Youth Offending Team inspections in Wales during the reporting period, namely in Western Bay and in Wrexham. Inspection announcement letters, young people's text surveys, sentencer questionnaires and alert procedure guidance were provided in both Welsh and English. No requests were made for interviews to be completed in the Welsh Language in Western Bay. Two interviews in Wrexham were completed in the Welsh language.

12. We have completed one inspection of probation services in Wales, namely the National Probation Service (NPS) in Wales. Announcement letters and letters to sentencers, were provided in both Welsh and English. Three interviews in the NPS in Wales inspection were conducted in the Welsh language.
13. We have completed two thematic inspections that have included areas in Wales, namely 'Domestic Abuse: the work undertaken by Community Rehabilitation Companies (CRCs) and 'Management and supervision of men convicted of sexual offences'. Four interviews were conducted in Welsh in the 'Domestic Abuse' thematic and seven interviews were conducted in Welsh in the 'sexual offending' inspection.
14. The total number of inspection interviews conducted in Welsh in 2018 is 16, which represents a significant upturn on recent years.

The organisation's public image

15. The logos for HMI Probation continue to be printed in bilingual format. Name badges are in bilingual format as is the business card of our Assistant Chief Inspector, Inspector with lead responsibility for the HMI Probation Welsh language scheme, Assistant Inspector and fee paid Welsh speaking Inspectors. As such, Welsh speaking inspectors are clearly identified on their name badges.
16. Reports on our inspections in Wales are published in parallel in Welsh and English. During this reporting period, we have published two thematic inspection reports during the reporting period relating to England and Wales. Welsh language reports were available at the same time as our English language reports in relation to these inspections. Published reports are also promoted with a bilingual title on twitter.
17. We have previously published some of our Annual Reports in Welsh and English and will ensure that we are more consistent in publishing this corporate document bilingually in future.

Wider communications

18. HMI Probation has continued to use the Ministry of Justice's approved translation service. We have supplied our translation provider with a list of commonly used terms to aid consistency. We will continue to monitor the quality of this service.
19. Requests for Welsh language media interviews are referred to our Welsh speaking Assistant Chief Inspector. No such media interviews were requested with the Assistant Chief Inspector during the reporting period.
20. We have not received any calls or correspondence to our Manchester or London offices through the medium of Welsh during the reporting period and we have not received any complaints in respect of our Welsh language scheme.

Staff training and development


21. There has been no specific training delivered about our Welsh Language Scheme or inspecting in Wales, during this reporting period. All new staff continue to receive, as part of their induction, an Equality and Diversity overview which incorporates our responsibilities and commitments regarding inspecting in Wales. The Inspector with lead responsibility for our Welsh Language scheme will also remind all staff of our responsibilities in our scheme through publishing an article in our Staff Bulletin.
22. During this reporting period we have continued to enhance our liaison with the Welsh Government through meeting with the relevant Minister and officials responsible for justice policy and community safety. We have also maintained regular attendance at

'keep in touch' meetings with Welsh Government Officials and partner Inspectorates, including liaison to promote the development of joint thematic inspection arrangements in Wales.

23. Our pro-active stakeholder engagement approach has further informed our understanding of devolved arrangements for adult and children's services and how these services intersect with crime and justice delivery in Wales.
24. Our Welsh speaking Assistant Chief Inspector attended the Commissioner's recent event on the impact of standards on relevant agencies and continued use of Welsh language schemes for others. We are cognisant of the Commissioner's report on the experience of Welsh speaking prisoners and we share the same view that "meeting the language needs of prisoners is key to support rehabilitation and to reduce reoffending".
25. We have embedded our new approach to probation and youth inspection and in conjunction with our Equality and Diversity, Lead Inspector, we will seek to ensure that our new programme of work continues to fulfil the requirements of our Welsh Language Scheme.

Future arrangements

26. Tony Kirk, HMI Probation Inspector, will continue to have lead responsibility for our Welsh Language scheme, reporting to Helen Davies, Assistant Chief Inspector, in turn reporting to HM Chief Inspector of Probation.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Tony Kirk', with a large circular flourish on the left side.

Tony Kirk

HMI Probation Inspector

On behalf of

Dame Glenys Stacey

HM Chief Inspector of Probation